# Y Pwyllgor Busnes

**Cofnodion BC(3)05-07**

**Dyddiad:** Dydd Mawrth 18 Medi 2007

**Amser:** 8.30 a.m.

**Lleoliad:** Ystafell Gyfarfod, Llawr 4, Yr Uned Gorfforaethol

**Aelodau'r Cynulliad yn bresennol**

Dafydd Elis-Thomas, Y Llywydd (Cadeirydd)
Carwyn Jones, Arweinydd y Ty
Jocelyn Davies, Y Diprwy Weinidog dros Dai
William Graham, Rheolwr Busnes Ceidwadwyr Cymru
Kirsty Williams, Rheolwr Busnes Democratiaid Rhyddfrydol Cymru

**Swyddogion yn Bresennol**

Adrian Crompton, Cyfarwyddwr Busnes y Cynulliad
Andrew George, Clerc y Pwyllgor Busnes
Marion Stapleton, Uned Fusnes y Cynulliad
Marc Wyn Jones, Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor Busnes
Aled Eirug, Ymgynghorydd Cyfansoddiadol

**1. Ymddiheuriadau a chyhoeddiadau**

**2. Cofnodion y cyfarfod blaenorol**

**(i) BC(3)05-07 (Cofnodion drafft) - Dydd Mawrth 10 Gorffennaf 2007**

2.1 Cyflwynwyd y cofnodion hyn i'r Pwyllgor ar eu ffurf drafft. Gan nad oedd unrhyw sylwadau, byddent yn cael eu cyfieithu yn barod i'w cyhoeddi.

**Camau i'w cymryd: Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor Busnes:**

**3. Busnes i ddod**

**Busnes yr Wythnos hon - BC(3)06-07(p1)**

3.1 Nododd y Pwyllgor y busnes ar gyfer 18 a 19 Medi 2007.

3.2 Cytunodd y Pwyllgor y byddai cynnig i atal Rheolau Sefydlog yn cael ei gyflwyno er mwyn dwyn cynigion gerbron i ethol Aelodau i'r Pwyllgorau ac i gytuno ar argymhelliad Prif Weinidog Cymru i ailbenodi Carwyn Jones fel Cwnsler Cyffredinol, ddydd Mawrth.

3.3 Nododd y Pwyllgor y byddai'r datganiadau llafar a ganlyn yn cael eu gwneud yn y Cyfarfod Llawn:

Datganiad gan y Gweinidog dros Faterion Gwledig am Glwy'r Traed a'r Genau, ddydd Mawrth.

Datganiad gan y Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth am effaith cau'r M4 ar y seilwaith trafnidiaeth, ddydd Mercher.

3.4 Dywedodd Arweinydd y Ty y byddai Datganiad Deddfwriaethol am y Gorchymyn Cymhwysedd Deddfwriaethol arfaethedig ynghylch Tai Fforddiadwy, a drefnwyd ar gyfer dydd Mawrth, yn cael ei ohirio.

3.5 Dywedodd y Llywydd iddo dderbyn hysbysiad fod Aelod yn dymuno cynnig bod dadl frys ar Glwy'r Traed a'r Genau yn cael ei chynnal ddydd Mawrth, yn unol â Rheol Sefydlog 7.58.

3.6 Cytunodd y Pwyllgor y byddai Cyfnod Pleidleisio am 5.00pm ddydd Mawrth ar gyfer busnes y Cynulliad a busnes heblaw busnes y llywodraeth.

**Amserlen 3 Wythnos Busnes y Llywodraeth - BC(3)06-07(p2)**

3.7 Nododd y Pwyllgor Amserlen 3 Wythnos Busnes y Llywodraeth.

**Amserlen 3 Wythnos Busnes heblaw Busnes y Llywodraeth - BC(3)06-07(p3)**

3.8 Penderfynodd y Pwyllgor ar yr Amserlen 3 Wythnos ar gyfer Busnes heblaw Busnes y Llywodraeth.

**4. Gorchmynion Cymhwysedd Deddfwriaethol**

**Yr amserlen arfaethedig ar gyfer Gorchymyn (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Rhif 3) Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2007 -**

**BC(3)06-07(p4)**

"a'r papur cefndir ar gyfer y Gorchymyn -" **BC(3)06-07(p5)**

4.1 Cytunodd y Pwyllgor ar yr amserlen arfaethedig i'r Pwyllgor Deddfwriaethol drafod Gorchymyn (Cymhwysedd Deddfwriaethol) (Rhif 3) Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

**Yr amserlen ddiwygiedig ar gyfer Gorchymyn (Cymhwysedd Deddfwriaethol) Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2007 ynghylch Anghenion Dysgu Ychwanegol - BC(3)06-07(p6)**

4.2 Nododd y Pwyllgor fod Gorchymyn (Cymhwysedd Deddfwriaethol) Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2007 ynghylch Anghenion Dysgu Ychwanegol wedi'i osod yn y Swyddfa Gyflwyno ar 11 Mehefin 2007 a bod y Pwyllgor Busnes wedi'i drafod yn ei gyfarfod ar 19 Mehefin 2007. Cytunodd y Pwyllgor ar yr amserlen ddiwygiedig ar gyfer trafod y Gorchymyn, a oedd yn caniatáu wythnos ychwanegol i'r Pwyllgor Deddfwriaethol gyflwyno'i adroddiad.

**5. Unrhyw fater arall**

5.1 Dywedodd y Rheolwyr Busnes fod yr Hysbysiad Busnes yn ddefnyddiol iawn ac yn ffordd effeithiol o roi gwybodaeth am y Cyfarfodydd Llawn a chyfarfodydd y pwyllgorau.

**YSGRIFENYDDIAETH Y PWYLLGOR BUSNES**